Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

# Canolfan Iechyd a Lles Bevan – Cwestiynau Cyffredin

**Pa bractisau meddygon teulu fydd yn symud i Ganolfan Iechyd a Lles Bevan?**
Bydd Canolfan Iechyd Tredegar a Meddygfa Glan-yr-Afon yn symud i'r ganolfan newydd ar 22ain o Ionawr 2024.

**A fydd fy Mhractis Meddyg Teulu yn newid ei enw?**
Mae Canolfan Iechyd Tredegar yn newid ei henw i Ganolfan Feddygol Tredegar; fodd bynnag, bydd Meddygfa Glan-yr-Afon yn aros yr un enw. Ni fydd unrhyw newid i staff y practis a byddant yn symud i'r adeilad newydd.

**A oes angen i mi wneud unrhyw beth pan fyddaf yn cael gwybod bod y feddygfa rwyf wedi cofrestru gyda hi, Canolfan Iechyd Tredegar neu Feddygfa Glan-yr-Afon, yn symud i Ganolfan Iechyd a Lles Bevan?**

Nac oes. Nid oes angen i chi wneud unrhyw beth.

Byddwch yn parhau i dderbyn gofal yn adeilad presennol Canolfan Iechyd Tredegar a Meddygfa Glan-yr-Afon nes iddynt symud i Ganolfan Iechyd a Lles newydd Bevan.

**A fydd fy Meddyg Teulu yn dal i allu gweld fy nghofnodion meddygol?**
Byddant, mae holl gofnodion cleifion yn electronig a byddant ar gael i staff sy'n gweithio o Ganolfan Iechyd a Lles Bevan.

**Ble byddaf yn gallu parcio?**
Maes parcio Canolfan Iechyd a Lles Bevan yw cam olaf y datblygiad. Er mwyn cynorthwyo gyda threfniadau parcio pan fydd y ganolfan yn agor am y tro cyntaf, rydym yn symud gwasanaethau i'r ganolfan fesul dipyn. Mae gennym gytundeb gyda'r clwb rygbi lleol (NP22 3NN), sydd ychydig funudau i lawr y ffordd, a gall cleifion a staff barcio yno pan fydd angen. Gwnewch yn siŵr eich bod yn gadael digon o amser i gerdded i'ch apwyntiad yn y Ganolfan Iechyd a Lles pan fo angen.

**Pa wasanaethau fydd ar gael?**
Bydd y Ganolfan Iechyd a Lles yn gartref i ddau Bractis Meddyg Teulu sy'n

gweithio'n annibynnol; Canolfan Iechyd Tredegar a Meddygfa Glan-yr-Afon. Bydd y ganolfan yn dod ag ystod o wasanaethau cleifion ynghyd o dan un to, gan gynnwys Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol, Fferylliaeth Gymunedol, Deintyddiaeth Gymunedol, Gwasanaethau Cymunedol, Gofal Cymdeithasol a Phartneriaid o'r Trydydd Sector. Mae'r datblygiad hwn yn elfen sylfaenol o'r model dyfodol clinigol ym Mwrdeistref Blaenau Gwent. Mae'n fodd i'r Bwrdd Iechyd ddarparu ystod eang o wasanaethau yn nes at adref ar gyfer y gymuned leol.

**A fydd yn rhaid inni ailgofrestru unwaith y bydd y Practis Meddyg Teulu wedi symud i'r adeilad newydd?**

Os ydych eisoes yn glaf yng Nghanolfan Iechyd Tredegar neu Meddygfa Glan-yr-Afon, byddwch yn cael eich trosglwyddo'n awtomatig i'r adeilad newydd unwaith y bydd wedi'i agor.

**A yw'r ddau Bractis Meddyg Teulu yn ymuno fel un?**

Na, bydd Canolfan Iechyd Tredegar a Glan-yr-Afon yn parhau i gael eu redeg yn annibynnol. Maent yn symud i'r Ganolfan Iechyd newydd er mwyn bod ar yr un safle.

**A fydd fferyllfa yn yr adeilad newydd?**

Bydd, mae'r fferyllfa bresennol yng Nghanolfan Iechyd Tredegar yn symud i'r adeilad newydd.

**Beth yw cyfeiriad yr adeilad newydd?**

Y cyfeiriad ar gyfer Canolfan Iechyd a Lles Bevan yw Park Row, Tredegar, NP22 3NG.

**Beth sydd angen i mi ei wneud os wyf am gofrestru gyda phractis meddyg teulu newydd?**

Gallwch gofrestru gyda'r practis meddyg teulu o'ch dewis, ar yr amod eich bod yn byw o fewn ffin eu practis ar hyn o bryd.

Pan fyddwch wedi cofrestru gyda'ch practis meddyg teulu newydd ac wedi cael eich ychwanegu at restr cleifion y feddygfa, bydd eich cofnodion meddygol yn cael eu trosglwyddo'n awtomatig i'ch practis meddyg teulu newydd.

**Rwy'n defnyddio Fy Iechyd Ar-lein – Beth ddylwn i ei wneud?**

Bydd Ap GIG Cymru yn disodli Fy Iechyd Ar-lein cyn y 31ain o Ragfyr 2023. Er mwyn sicrhau parhad gwasanaethau lawrlwythwch yr Ap heddiw

a chofrestrwch eich diddordeb. Byddwch yn cael gwybod pan fydd eich practis yn fyw yn yr Ap.

**Darganfod mwy** Cofrestru gydag Ap GIG Cymru

Cefnogaeth ychwanegol: Mewngofnodi GIG - Ap GIG Cymru